Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 05.09.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# YMGYNGHORIAD: Strategaeth Arloesi i Gymru: Digwyddiadau Ymgynghori

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar ddrafft eu Strategaeth Arloesi i Gymru. Cynhelir digwyddiad mewn person yn M-SParc, Gaerwen ar 8 Medi 2022 (2:00pm-4:00pm) a digwyddiad ar-lein ar 16 Medi 2022 (9:30am-11:00am) i drafod yr ymgynghoriad. Mae mwy o wybodaeth am y digwyddiadau ar gael ar:

https://bit.ly/3enLyBT

Mae dogfennau'r ymgynghoriad a manylion am sut i gymryd rhan ar gael ar:

https://llyw.cymru/strategaeth-arloesi-i-gymru

## IECHYD A DIOGELWCH: Gwella awyru cyffredinol yn y gweithle

Rhaid i gyflogwyr sicrhau bod digon o awyru mewn rhannau caeedig o'u gweithle. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi cynhyrchu nifer o adnoddau defnyddiol:

- Adran ar wefan HSE: https://www.hse.gov.uk/ventilation/index.htm
- Fidio yn nodi'r cyngor allweddol: https://bit.ly/3qag7gT
- Esiamplau o wella awyru: https://bit.ly/3TFwks2

## ARIANNU: Grant dechrau busnes carbon sero net

Mae grantiau dechrau busnes carbon sero net yn cynnig cymorth ariannol i egin fusnesau cymdeithasol neu fudiadau masnachu gwirfoddol Cymreig i ddechrau masnachu neu fuddsoddi, ynghyd â chymorth technegol i ymwreiddio arferion sy'n ystyriol o'r hinsawdd. Mae Cylch 2 y cynllun ar agor nawr, y dyddiad cau i dderbyn datganiadau o ddiddordeb ar gyfer y cylch hwn yw 21 Medi 2022.

https://wcva.cymru/cy/cyllid/buddsoddiad-cymdeithasol-cymru/grant-dechrau-busnes-carbon-sero-net/

## BWYD A DIOD: Sgiliau Bwyd Cymru – Gweithdai a Dosbarthiadau Meistr Medi 2022

Mae gweithdai a dosbarthiadau meistr ar-lein Sgiliau Bwyd Cymru wedi hariannu'n llawn ar gyfer busnesau lletygarwch sy'n cyrchu, gweini a gwerthu bwyd Cymreig. Mae'r cyrsiau yn cynnwys llunio bwydlenni, steilio bwyd a ffotograffiaeth, defnyddio'r Gymraeg fel arf marchnata a chyrchu cynnyrch lleol. Am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau Medi 2022, ewch i:

https://bit.ly/3KMXskQ

## CYMORTH: Helo Blod | Defnyddio Cymraeg yn eich busnes

Gall defnyddio ychydig o Gymraeg yn eich busnes helpu i gyrraedd cynulleidfa newydd a chadw cwsmeriaid ffyddlon. Mae Helo Blod yn wasanaeth cyfieithu a chynghori Cymraeg am ddim, sy'n gyflym a chyfeillgar, darganfyddwch mwy ar:

https://businesswales.gov.wales/heloblod/cy

Mae cwrs BOSS (Gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein) sy'n dangos faint mor hawdd yw defnyddio mwy o Gymraeg mewn busnes ar gael ar:

https://bit.ly/3BeuHub

## CYFLE: Gwerthwch i Gymru Cais am Ddyfynbris (CAD): Ymgynghorwyr Gwerthuso

Gofynnir am ddyfynbrisiau am ddarparu gwasanaethau ymgynghori i wneud dadansoddiadau/gwerthusiadau ariannol ar fenthyciadau busnes a cheisiadau grant a dderbynnir gan Gyngor Gwynedd. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3RkRSsg

# AMAETHYDDIAETH: Mynd i'r afael â chostau cynhyrchu uchel yn y sector ffermio

Mae gwybodaeth am y cyngor, arweiniad, a gweminarau sydd ar gael i helpu i liniaru prisiau cynyddol bwyd anifeiliaid, tanwydd a gwrtaith ar gael ar:

https://llyw.cymru/mynd-ir-afael-chostau-cynhyrchu-uchel-yn-y-sector-ffermio

# CYFLE: Unedau busnes a gofod swyddfa ar osod

Mae'r safleoedd canlynol ar gael ar hyn o bryd gan Gyngor Gwynedd:

- Swyddfa 6 ym Mentec yng nghanol dinas Bangor
- Uned G12 ym Mharc Menai, Bangor
- Hen Storfa Bomiau, Glyn Rhonwy, Llanberis – disgwylir i ddatganiadau o ddiddordeb gael eu derbyn erbyn 12:00pm Dydd Gwener, 9 Medi 2022
- Uned A7 Stad Ddiwydiannol Cibyn

Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/UnedauGwynedd

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru